



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Email / Address  
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Health and Social Services Group

Date / Dydiadd: Friday 16 July 2021

Annwyl Gyfeillion,

### **COVID-19: Gwasanaethau Practisau Optometreg**

Ddydd Llun 14 Gorffennaf, cyhoeddodd Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, y byddai'r cyfyngiadau COVID yn cael eu llacio, er bod unrhyw gamau a gymerir yn parhau'n rhai gofalus.

Bydd Cymru yn symud yn llawn i lefel rhybudd un o 17 Gorffennaf. Cafodd y newidiadau eu hoedi bedair wythnos yn ôl gan fod yr amrywiolyn delta wedi ymddangos ac wedi lledaenu ar draws y DU, er mwyn rhoi cyfle i fwy o bobl yng Nghymru gael y brechlyn.

Mae lefel rhybudd sero yn cael ei hegluro mewn fersiwn ddiwygiedig o *Gynllun Rheoli'r Coronafeirws* a gyhoeddwyd heddiw:  
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-07/coronavirus-control-plan-alert-level-zero-0.pdf> Os bydd y sefyllfa iechyd cyhoeddus yn caniatáu, bydd Cymru yn symud i'r lefel hon ar 7 Awst.

Ar lefel rhybudd sero, dylai practisau nodi'n benodol:

- y bydd asesiadau risg COVID yn parhau'n ofyniad cyfreithiol.
- o dan y gyfraith, y bydd yn ofynnol gweithredu mesurau i reoli'r risg coronafeirws, ond bydd pob sefydliad yn gyfrifol am benderfynu ar y mesurau hynny yn seiliedig ar ganlyniadau eu hasesiadau risg, gan gynnwys mewn perthynas â phellter corfforol.
- y dylai pobl barhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl.
- y bydd gorchuddion wyneb yn parhau i fod yn ofyniad cyfreithiol o dan do ym mhob lle cyhoeddus, ac eithrio lleoliadau addysg a lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl llacio ar y gofynion hyn yn raddol, er bod disgwyl i'r gofynion mewn lleoliadau gofal iechyd fod ar waith am gyfnod hirach.

### **Y rhaglen frechu**

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weld ei rhaglen frechu'n mynd o nerth i nerth, a bydd pob unigolyn dros 18 oed wedi cael cynnig y brechlyn erbyn dechrau mis Mehefin. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cyrraedd 75% o ran y ganran sydd

wedi cael ei dos cyntaf ar draws yr holl grwpiau blaenoriaeth a grwpiau oedran, cyn y dyddiad targed gwreiddiol, sef diwedd mis Gorffennaf 2021. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod 2.27m o bobl, neu 91% o oedolion, wedi cael dos cyntaf, a bod bron i 1.85m wedi cael ail ddos. Mae'r ganran sydd wedi cael dos cyntaf yn uwch na 90% ymhlith pobl dros 60 oed, gweithwyr gofal iechyd; preswylwyr a staff cartrefi gofal, a phawb sy'n eithriadol agored i niwed yn glinigol.

Er bod llwyddiant y rhaglen frechu yn amlwg yn y frwydr yn erbyn COVID, nid yw'r pandemig drosodd eto. Mae angen inni i gyd barhau i gymryd camau i ddiogelu cymunedau, ein cleifion, a ni ein hunain.

### Gwasanaethau optometrïg

Mae gwasanaethau optometrïg yn parhau yn y **cyfnod adfer Oren**, fel y'i disgrifir gan Goleg yr Optometryddion:

### Canllawiau penodol ar gyfer y cyfnod oren

Beth mae hyn yn ei olygu?

- Er bod cyfyngiadau pandemig COVID-19 ar waith, mae gofal sylfaenol yn parhau ar agor i ddarparu gwasanaethau rheolaidd. Dylai gwasanaethau gofal sylfaenol barhau i allu blaenoriaethu gofal brys/argyfwng a gofal hanfodol ar sail anghenion ac mewn modd sy'n cael ei arwain gan symptomau.

### **Gwasanaethau a ddarperir**

- Anghenion wyneb yn wyneb a/neu ofal llygaid a arweinir gan symptomau ac ymarfer lensys cyffwrdd, fel y'u blaenoriaethir gan glinigydd yn seiliedig ar brotocolau lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, gweler offeryn pennu lefel risg (cyfnod oren)
- Bodloni'r anghenion gofal llygaid sy'n aros i gael sylw fel y mae'r capasiti'n caniatáu
- Gofal cartref yn unol â phrotocolau lleol
- Atgyfeiriadau Gwasanaethau Llygaid mewn Ysbyty yn unol â phrotocolau lleol

Dylai practisau barhau i wneud y canlynol:

- parhau ag arferion brysbennu symptomau COVID cyn dod i'r practis/ wrth ddod i mewn i'r practis
- cadw at ganllawiau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys o ran defnyddio PPE
- sicrhau bod mesurau pellter cymdeithasol yn parhau ar waith ar gyfer lleoliadau optometreg
- parhau ag arferion brysbennu a blaenoriaethu ar gyfer cleifion
- diheintio fframiau
- parhau i sicrhau bod lefel dda o awyru ymhob man o fewn y practis

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

- sicrhau bod staff y practis yn cael profion llif unffordd rheolaidd

Bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 gan roi hyder i aelodau'r cyhoedd ei bod yn ddiogel cael gofal llygaid.

### Data Gweithgarwch

Mae dadansoddiad o ddata Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Archwiliadau Iechyd Llygaid Cymru (EHEW), a Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru yn dangos lefelau gweithgarwch ym mis Ebrill sy'n gyson â'r cyfartaledd ar gyfer y tair blynedd flaenorol. Mae'n galonogol gweld lefelau gweithgarwch yn dychwelyd at y lefelau cyn y pandemig.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i dynnu eich sylw at ganllawiau'r DU ar gyfer atal a rheoli haint COVID-19 sydd wedi eu cyhoeddi gan Public Health England ar wefan Llywodraeth y DU, ac sydd wedi eu hatodi wrth y llythyr hwn. Dylech barhau i fonitro gwefannau llywodraeth er mwyn sicrhau eich bod yn dilyn y canllawiau diweddaraf.

Hefyd mae Coleg yr Optometryddion yn parhau i ddarparu canllawiau yn ystod y pandemig. Isod mae dolen at wefan y Coleg, a hoffwn annog pob ymarferydd a phractis optometreg yng Nghymru i barhau i sicrhau ei fod yn gwybod am gyngor proffesiynol diweddaraf y Coleg. Dylech edrych ar y canllawiau yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod eich arferion chi ac arferion y practis yn cydymffurfio â nhw, yn benodol o ran y mesurau rheoli heintiau a defnyddio cyfarpar diogelu personol.

### Canllawiau pandemig COVID-19 gan Goleg yr Optometryddion ar gyfer gofal llygaid sylfaenol ([college-optometrists.org](http://college-optometrists.org))

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith yn rhagor am eich diwydrwydd ac ymdrechion parhaus i barhau i ddarparu gofal llygaid o safon uchel drwy gydol y pandemig. Drwy fod yn wiliadwrus fel hyn, rydych yn helpu i gadw chi eich hunain yn ddiogel a hefyd eich cleifion a'ch cymuned yn ystod y frwydr yn erbyn y pandemig byd-eang hwn.

Yn gywir,



### **David O'Sullivan**

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*

Chief Optometric Adviser / Prif Optometrigr Ymgynghorol  
Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol / Office of the Chief Medical Officer  
Directorate of Health Policy / Cyfarwyddiaeth Polisi Iechyd  
Department for Health and Social Services / Yr Adran Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol  
Welsh Government / Llywodraeth Cymru  
Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ / Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ

*Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.*

*We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.*



Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Gwefan • website:

[www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru)  
[www.gov.wales](http://www.gov.wales)